Estyn

estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru

Tachwedd 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **4** |
| **1 Safonau** | **5** |
| **2 Darpariaeth** | **8** |
| **3 Arweinyddiaeth a sicrhau ansawdd** | **11** |
| **4 Casgliadau** | **12** |
| **Atodiad: Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned** | **14** |
| **Cyfeiriadau** | **16** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Caiff ei ysgrifennu i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill â budd am argaeledd darpariaeth sy'n cefnogi agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i hagenda lles a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), yn enwedig wrth fodloni anghenion dysgwyr hŷn.

Mae'r arolwg yn defnyddio tystiolaeth o gyfarfodydd ag arweinwyr strategol a gweithredol o'r holl bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru, gydag uwch arweinwyr o WEA/YMCA Cymru, a Llywodraeth Cymru, ynghyd â chraffu ar ddata deilliannau wedi'i wirio, cynlluniau cyflwyno gwasanaethau, ffeiliau cwricwlwm a dogfennau perthnasol eraill.

## Cefndir

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darparu dysgu oedolion yn y gymuned i bobl dros 19 oed. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad ar y defnydd ar y cyllid mewn llythyr blynyddol ('Arweiniad ar Gynlluniau Cyflwyno Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned'). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun cyflwyno gwasanaeth a chynllun strategol dysgu oedolion yn y gymuned i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Rhaid i awdurdodau lleol ddangos eu bod yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr lleol i gyflwyno dysgu oedolion yn eu hardal. Mae Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ac yn trafod y cynlluniau hyn gyda'r awdurdod lleol.

Mae'r llythyron diweddaraf (2015-2017) yn atgoffa awdurdodau lleol mai'r brif flaenoriaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yw mynd i'r afael â thlodi, hynny yw, gwella cyflogadwyedd trwy ddarparu cyrsiau mewn addysg sylfaenol oedolion ar gyfer llythrennedd a rhifedd oedolion, llythrennedd digidol (technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sef TGCh), a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynllunio i fodloni angen lleol a rhoi manylion deilliannau arfaethedig a llwybrau dilyniant. Rhaid iddynt hefyd ddangos sut bydd y ddarpariaeth a dilyniant yn cael eu monitro.

Yn ogystal, mae'r llythyr yn annog awdurdodau lleol i ystyried y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Pobl Hŷn (Llywodraeth Cymru, 2013) er mwyn:

- ystyried darparu ar gyfer pobl dros 65 oed trwy grwpiau a chlybiau cymdeithasol anffurfiol yn ogystal â darpariaeth fwy traddodiadol
- 'ail sgilio' ac 'uwch sgilio' i ddysgwyr sydd â'r potensial i barhau'n weithgar yn economaidd
- darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- gwneud y mwyaf o gysylltiadau â'r trydydd sector, gan gynnwys cymdeithasau tai, a darpariaeth arall a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf ac ysgolion, wrth gynllunio'u darpariaeth

Mae'r cyllid a ddyrennir yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac nid yw'n gysylltiedig â lefel difreintedd nac angen lleol. Mewn sawl achos, mae awdurdodau lleol yn ategu'r ddarpariaeth a ariennir gan lywodraeth ganolog trwy roi cyllid ychwanegol a chymhorthdal ar gyfer cyrsiau i ddysgwyr eraill i gefnogi eu dysgu a'u lles cyffredinol. Mae newidiadau ariannol diweddar wedi arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth ehangach hon sydd, er eu bod yn cael eu galw'n ddosbarthiadau 'hamdden' erbyn hyn, yn rhoi parhad addysg ac 'ail gyfle' i lawer o ddysgwyr na wnaethant ffynnu yn eu haddysg ffurfiol. Yn ogystal, mae'r dosbarthiadau hyn yn rhoi llawer o fanteision cymdeithasol eraill i bobl lai breintiedig a'r rhai sy'n arunig yn gymdeithasol.

Yn sgil cyflwyno Deddf Addysg a Sgiliau (Prydain, 2000), cafodd awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru, a sefydliadau gwirfoddol eraill y 'trydydd sector' eu hannog gan Lywodraeth Cymru i ddod ynghyd i greu 'partneriaethau' anstatudol dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r partneriaethau hyn yn cynllunio ac yn cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned ar draws ardal yr awdurdod lleol neu, mewn rhai achosion, ar draws nifer o awdurdodau lleol (gweler yr Atodiad am fanylion pellach). Mae sefydlu'r partneriaethau hyn wedi arwain at ddarpariaeth fwy cost effeithiol, gyda gwell ffocws ar gyfer y sector oedolion ac mae wedi lleihau dyblygu cyrsiau. Mae partneriaethau yn cyfeirio dysgwyr at y darparwyr sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r cwrs mae'r dysgwr yn chwilio amdano ac yn helpu i ddarparu llwybrau dilyniant clir i'r dysgwr.

Sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cymru ddwy flynedd yn ôl. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd a thrwy'r rhwydwaith hwn y mae'r sector yn rhannu gwybodaeth ac yn trafod strategaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn Gymuned Cymru yn datblygu 'fframwaith dysgu oedolion' sy'n ystyried polisïau'r llywodraeth fel 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015). Trwy'r fframwaith hwn, mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cymru yn anelu at wella'r pontio o ddarpariaeth statudol i ddysgu oedolion yn y gymuned.

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ddysgu ôl-16 yn cael ei integreiddio fwyfwy ar draws colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a sefydliadau addysg uwch. Yn gyffredinol, nid yw dysgu oedolion yn y gymuned wedi'i gynnwys yn y datblygiadau hyn, er bod partneriaethau lleol wedi ymdrechu i alinio'r cylch cynllunio dysgu oedolion yn y gymuned â chylch cynllunio colegau addysg bellach.

Yn 2015-2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'i pholisi a'i strategaeth gyllido bresennol, ac o ffurfweddu'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru, i helpu i lywio datblygiadau polisi at y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2016a).

## Prif ganfyddiadau

1 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau llwyddiant[1] ar gyfer addysg sylfaenol oedolion, TGCh ac SSIE tua 10 pwynt canran islaw cyfraddau cwblhau[2]. Mae hyn oherwydd bod un o bob deg dysgwr sy'n oedolyn, ar gyfartaledd, yn dilyn eu cwrs ac yn ei gwblhau, ond naill ai nid ydynt wedi rhoi cynnig ar y lefel a wnaed, neu nid ydynt wedi llwyddo ynddo.

2 Yn y rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, mae gostyngiadau ariannol wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth a lefelau staffio. Mewn sawl achos, bu'n rhaid i bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned leihau nifer y cyrsiau a nifer y lleoliadau. Mae bron pob partneriaeth wedi gostwng nifer y staff addysgu, gan arwain at golli arbenigedd, yn enwedig ym maes llythrennedd digidol. Mae gostyngiadau mewn staff gweinyddol hefyd yn golygu bod lleoliadau ar agor am lai o oriau. Mae hyn yn cyfyngu ar amserlennu dosbarthiadau gan arwain at ddewis mwy cyfyngedig o gyrsiau ac mae'n golygu bod llawer o ddysgwyr yn gorfod teithio'n bellach i ddosbarthiadau.

3 Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnal ymrwymiad cadarn i ddarparu dysgu i ddysgwyr anodd eu cyrraedd, fel pobl sydd wedi bod yn ddi-waith dros gyfnod hir, rhieni sengl, grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl ag anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol, pobl arunig a phobl oedrannus, a phobl sydd wedi cael profiad gwael o addysg statudol. Mewn llawer achos, mae partneriaethau wedi creu cynghreiriau newydd gyda darparwyr eraill sy'n gallu manteisio ar gyllid, ond nid oes ganddynt y gallu i gyflwyno'r cyrsiau gofynnol.

4 Mae bron pob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn ymroi i ddarparu cyrsiau 'hamdden' neu les, fel cyrsiau mewn ieithoedd tramor modern, ysgrifennu creadigol, celf, crefft a gwniadwaith, cynnal a chadw cyffredinol yn y cartref, garddio, ioga a dosbarthiadau hyfforddiant ffitrwydd, ar sail adennill costau yn llawn. Fodd bynnag, mae'r trefniant hwn yn arwain at gyfle anghyfartal i ddysgwyr llai cefnog neu ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd cael cludiant addas.

5 Mae arweinwyr rhai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi dwyn perswâd llwyddiannus ar nifer o diwtoriaid a dysgwyr o ddosbarthiadau hirsefydlog i sefydlu clybiau hunangyllido, lle y mae swyddogaeth gymdeithasol y dosbarth wedi dod yr un mor bwysig â'r dysgu ei hun. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am hurio'r tiwtor a'r lleoliad a threfnu'r dosbarth eu hunain, wedi'i hwyluso drwy'r bartneriaeth. Mae hyn yn lleihau'r angen am gyllid cyhoeddus, tra'n parhau i ddarparu gweithgaredd sy'n cefnogi lles.

6 Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi parhau i gymhwyso gweithdrefnau sicrhau ansawdd i gynnal ansawdd addysgu a dysgu. Maent yn defnyddio deilliannau eu gwaith sicrhau ansawdd yn dda i lywio hunanarfarnu a gwneud penderfyniadau am y ffyrdd ymlaen. Fodd bynnag, mae toriadau ariannol

---

[1] Caiff cyfraddau llwyddiant eu cyfrifo trwy rannu nifer y gweithgareddau dysgu (cyrsiau) a ddilynwyd ac yr enillwyd cymhwyster ynddynt gan ddysgwyr â nifer y cyrsiau a derfynwyd (cyrsiau wedi'u cwblhau neu y tynnodd dysgwyr yn ôl ohonynt).

[2] Caiff cyfraddau cwblhau eu cyfrifo yn ôl nifer y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd wedi'i rannu â nifer y gweithgareddau dysgu a derfynwyd.

ehangach mewn awdurdodau lleol yn golygu bod llawer o uwch arweinwyr yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned wedi newid swydd neu adael y gwasanaeth ac, o ganlyniad, mae llai o staff profiadol i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu.

## Argymhellion

**Dylai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned:**

- barhau i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu i gynnig gwerth am arian i'r holl ddysgwyr sy'n oedolion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- adolygu ei pholisi a'i strategaeth ariannu ar gyfer y sector dysgu oedolion yn y gymuned


## 1 Safonau

### Cofrestru a niferoedd dysgwyr

7 Mae data wedi'i ddilysu o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer 2012-2013 i 2014-2015 yn dangos bod nifer y dysgwyr sy'n oedolion a gofrestrodd ar gyrsiau addysg sylfaenol oedolion wedi cyrraedd uchafbwynt o 15,958 yn 2013-2014, tra'r oedd nifer y cofrestriadau ar ei isaf (tua 14,000) yn 2014-2015.

8 Dros yr un cyfnod, roedd nifer y cofrestriadau gan oedolion ar gyrsiau llythrennedd digidol (TGCh) ar ei uchaf yn 2012-2013 (20,931), ond mae nifer y cofrestriadau wedi disgyn flwyddyn ar ôl blwyddyn ers hynny. Yn 2013-2014, roedd nifer y cofrestriadau ar gyrsiau llythrennedd digidol wedi disgyn i 16,740 ac fe ddisgynnodd eto yn 2014-2015 i 12,152. Roedd nifer y cofrestriadau gan oedolion ar gyfer SSIE wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2012-2013 (16,652), ond fe ddisgynnodd yn 2013-2014 (9,714) cyn ychydig o gynnydd yn 2014-2015 (11,000).

**Nifer y dysgwyr (gweithgareddau dysgu a derfynwyd) yn sectorau/meysydd pwnc addysg sylfaenol oedolion, SSIE a TGCh, 2012-2013 i 2014-2015**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016b)

### Cyfraddau cwblhau a llwyddo

9 Roedd cyfraddau cwblhau ar gyfer addysg sylfaenol oedolion, SSIE a TGCh yn ystod y cyfnod hwn wedi amrywio rhwng 92% a 95%, gyda'r cyfraddau llwyddiant yn amrywio rhwng 80% ac 87%. Yn ystod y cyfnod hwn (2012-2013 i 2014-2015), roedd cyfraddau llwyddo tua'r cyfartaledd, sef tua 10 pwynt canran islaw cyfraddau cwblhau. Yn 2014-2015, roedd y gyfradd llwyddo ar gyfer SSIE tua phum pwynt canran islaw'r gyfradd cwblhau. Mae gan ddysgwyr sy'n oedolion lawer o ymrwymiadau yn eu bywyd, felly er eu bod yn cwblhau cwrs, gall hyn olygu nad ydynt o reidrwydd yn rhoi cynnig ar y cyrhaeddiad.


**Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad[3] a llwyddo yn y sector/maes pwnc addysg sylfaenol oedolion, 2012-2013 i 2014-2015**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016b)

10 Mae’r cyfraddau llwyddo ar gyfer llythrennedd rhwng 2012-2013 a 2014-2015 yn dangos cynnydd o ddau bwynt canran flwyddyn ar ôl blwyddyn, er bod y deilliannau hyn yn parhau tua 10 pwynt canran, ar gyfartaledd, islaw cyfraddau cwblhau. Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer rhifedd yn amrywio’n fwy ac nid ydynt yn dangos yr un gwelliant cyson.


**Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo ym medrau llythrennedd addysg sylfaenol oedolion, 2012-2013 i 2014-2015**




[3]Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016)


[3] Caiff cyfraddau cyrhaeddiad eu cyfrifo fel nifer y gweithgareddau dysgu yr enillwyd cymhwyster ynddynt wedi’i rannu â nifer y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd.

**Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo ym medrau rhifedd addysg sylfaenol oedolion, 2012-2013 i 2014-2015**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016b)

**Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo yn y sector/maes pwnc SSIE, 2012-2013 i 2014-2015**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016b)

**Cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo yn y sector/maes pwnc TGCh, 2012-2013 i 2014-2015**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016b)

**Cyflogadwyedd**

11 Nid yw data a allai awgrymu p'un a yw cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned yn gwella cyflogadwyedd yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn darparu tystiolaeth ar lafar yn rheolaidd ynghylch cynnydd dysgwyr unigol sydd wedi mynd ymlaen i gael gwaith neu sydd wedi elwa mewn ffyrdd eraill.

## 2 Darpariaeth

12 Yn 2015-2016, mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn parhau i gydweithio i leihau dyblygu'r ddarpariaeth, i gyflwyno dewis mor eang â phosibl o weithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned ac i ddarparu llwybrau dilyniant i ddysgwyr. Yn y rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, mae gostyngiad yng nghyllid y llywodraeth wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth.

13 Mae bron pob un o'r arweinwyr strategol mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ar draws Cymru wedi rhoi ystyriaeth dda i'r wybodaeth ddemograffig a'r wybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer eu hawdurdod lleol a'r rhanbarth cyfagos wrth ailffocysu'r ddarpariaeth ar gyfer 2015-2016. Mae hyn yn cynnwys ystyried cyfraddau cyflogaeth yn briodol, a faint o ddysgwyr dros 19 oed a thros 50 oed y mae angen cyrsiau arnynt i wella'u medrau cyflogadwyedd. Hefyd, maent wedi ystyried faint o ddarpar ddysgwyr hŷn sy'n dymuno elwa o fynychu dosbarthiadau 'hamdden' sy'n cyfrannu at eu lles.

14 Yn gyffredinol, mae arweinwyr dysgu oedolion yn y gymuned wedi ceisiau sicrhau bod cyrsiau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd a'u helpu i fynd i'r farchnad lafur yn parhau i gael eu darparu. Fodd bynnag, mewn sawl achos, mae partneriaethau wedi gorfod lleihau nifer y cyrsiau a'r lleoliadau y cânt eu cyflwyno ynddynt.

15 Wrth i awdurdodau lleol ostwng nifer yr adeiladau maent yn gyfrifol amdanynt, mae partneriaethau wedi symud llawer o'u dosbarthiadau i leoliadau amlswyddogaeth, fel llyfrgelloedd. Er bod y rhain yn aml wedi'u lleoli'n ganolog ac mae ganddynt gysylltiadau cludiant da, mae'r gostyngiad yn y lefelau staffio gan awdurdodau lleol yn aml yn golygu bod y lleoliadau ar agor am lai o amser. Mae hyn wedi cael effaith ychwanegol ar yr adegau y gall dosbarthiadau gael eu cynnig. Mewn ardaloedd mwy poblog, mae hyn yn golygu y gallai dysgwyr orfod aros yn hirach i ymuno â dosbarth addas ac ennill cymhwyster. Yn ogystal, gall fod yn rhaid i ddysgwyr o ardaloedd mwy gwledig deithio'n bellach i fynychu dosbarth, gan olygu costau cludiant uwch, a allai effeithio'n negyddol ar eu hawydd i gofrestru ar gwrs.

16 Mae nifer bach iawn o bartneriaid dysgu oedolion yn y gymuned yn rhoi prawf ar ffyrdd arloesol o gefnogi dysgwyr sy'n cymryd mwy o amser i ddysgu Saesneg neu ddysgwyr sydd eisiau datblygu eu medrau sgwrsio Saesneg ymhellach. Er mwyn cefnogi hyn, maent yn hyfforddi myfyrwyr coleg gwirfoddol, sy'n astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru, i ddarparu dosbarthiadau sgwrsio ychwanegol mewn Saesneg. Yn gyfnewid am hynny, mae'r myfyrwyr coleg yn ennill credyd tuag at eu hastudiaethau trwy ddatblygu ac achredu medrau gwirfoddoli a medrau ehangach. Mae hyn yn helpu'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned i leihau'r rhestri aros ar gyfer eu dosbarthiadau SSIE ac mae'n galluogi'r dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol yn barod ar gyfer ymuno â dosbarth.

17 Mae'n bosibl mai un effaith cyflwyno TGAU newydd mewn Saesneg a mathemateg, ar y cyd â'r gofyniad i ddysgwyr gyflawni graddau uwch cyn y gallant fynd ymlaen i hyfforddiant seiliedig ar waith neu gyrsiau galwedigaethol mewn sefydliadau addysg bellach, fydd creu corff o ddysgwyr na fyddant yn gallu cyflawni'r safonau newydd, hyd yn oed ar ôl ailsefyll y TGAU mewn lleoliadau addysg bellach. Bydd angen cymorth ychwanegol ar y dysgwyr hyn a dysgwyr dros 25 oed y tu hwnt i ddarparwyr dysgu yn y gwaith ac addysg bellach traddodiadol. Ar hyn o bryd, nid yw gwasanaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn meddu ar y gallu i gyflwyno'r ddarpariaeth hon ac nid oes ganddynt ychwaith athrawon sydd a phrofiad a chymwysterau yn gysylltiedig â'r gofynion cwricwlaidd newydd ar gyfer y TGAU newydd.

18 Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnal ymrwymiad cadarn i ddarparu dosbarthiadau i ddysgwyr anodd eu cyrraedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi cynnal perthnasoedd ffrwythlon gyda phartneriaid blaenorol fel darparwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr hyfforddiant a allai gyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Hefyd, maent wedi datblygu perthnasoedd newydd â sefydliadau eraill yn yr ardal sy'n cael cyllid, ond nad ydynt yn cyflwyno'r cyrsiau y mae ar eu cleientiaid eu hangen eu hunain. Er enghraifft, mae lleiafrif o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi cynnal cyfrifoldeb am gyflwyno dosbarthiadau dysgu teuluol, er nad yw'r rhain yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru bellach, trwy gynghreiriau gydag ychydig ysgolion sy'n defnyddio'u grant

amddifadedd disgyblion i barhau â'r ddarpariaeth. Mewn achosion eraill, mae partneriaethau yn llunio cynghreiriau newydd â Chymunedau yn Gyntaf i gyflwyno cyrsiau a grëwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion eu cleientiaid. Maent yn darparu sesiynau blasu dysgu amrywiol i annog dilyniant i ddysgu mwy ymdrechgar, er mwyn gwella gobaith dysgwyr o ddod o hyd i waith.

19 Mae bron pob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn ymroi i ddarparu cyrsiau 'hamdden' neu les i ddysgwyr yn eu hardal. Fodd bynnag, ni all bron pob un ohonynt gynnig unrhyw gymhorthdal ar gyfer dosbarthiadau ac mae bron pob cwrs 'hamdden' neu les yn cael eu cynnal ar sail adennill costau yn llawn. Mewn nifer cynyddol o achosion, nid yw partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn gallu cynnig consesiynau ychwaith, er enghraifft i bobl dros 60 oed. Mae uwch arweinwyr partneriaethau yn craffu ar lefelau cyfranogiad yn y cyrsiau 'hamdden' a lles yn ofalus, a phan fydd y niferoedd yn golygu nad yw'r cwrs yn gost-effeithiol, maent naill ai'n cyfuno dosbarthiadau neu'n cau'r dosbarth. Mae hyn wedi arwain at gau llawer o ddosbarthiadau celf, crefftau ac ieithoedd a oedd yn arwain at gymhwyster. Fodd bynnag, mae'r effaith yn cael ei theimlo fwyaf gan bobl oedrannus ac, yn benodol, menywod, sef mwyafrif y bobl sy'n cymryd rhan mewn dosbarthiadau 'hamdden' a lles.

20 Er bod y rhan fwyaf o arolygon dysgwyr yn cadarnhau bod llawer o ddysgwyr yn hapus i dalu am gyrsiau, mae'r cynnydd mewn ffioedd, ar y cyd â llai o amseroedd pan gaiff dosbarthiadau eu cynnal ac, weithiau, taith hirach a drutach i'r dosbarth, yn golygu na all dysgwyr ag incwm isel fforddio mynychu dosbarthiadau. I bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain neu'n fwy anghysbell mewn ardaloedd gwledig, mae'r diffyg dosbarthiadau 'hamdden' sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd yn cynrychioli colli cyfleoedd gwerthfawr i gymdeithasu a chadw'r meddwl a'r corff yn iach trwy weithgareddau newydd a heriol. Hefyd, mae'n arwain at gyfle anghyfartal i bobl sy'n llai cefnog.

21 Fodd bynnag, pan fydd swyddogaeth gymdeithasol dosbarth wedi dod mor bwysig i ddysgwyr â'r dysgu ei hun, mae arweinwyr partneriaethau wedi llwyddo i berswadio nifer cynyddol o diwtoriaid a dysgwyr i barhau â'r dosbarth fel clwb annibynnol. Yn yr achosion hyn, mae'r dysgwyr a'r tiwtoriaid yn gosod ffioedd y dosbarth ac mae arweinwyr y bartneriaeth yn cefnogi'r clwb trwy logi ystafelloedd yn un o'u lleoliadau. Mae hyn yn sicrhau llai o dreth ar adnoddau cyfyngedig y bartneriaeth ac mae ffi llogi'r ystafell yn rhoi arian yn ôl i'r darparwyr at ddefnydd arall. Fodd bynnag, nid oes cymhorthdal i'r rhai sydd â llai o allu i fforddio dysgu ac mae cost deunyddiau ar gyfer dosbarthiadau yn aml yn eu rhoi y tu hwnt i gyrraedd y bobl a fyddai'n elwa fwyaf o gymryd camau cyntaf pwysig yn ôl i ddysgu, gwaith neu ddatblygu gwell rhyngweithio cymdeithasol.

22 Mae Wythnos Addysg Oedolion (bellach yr Ŵyl Ddysgu, sy'n cael ei hybu gan y Sefydliad Dysgu a Gweithio – Cymru a Lloegr) yn dathlu buddion dysgu oedolion yng Nghymru, ond mae gan ddarparwyr a phartneriaethau gyllidebau cyfyngedig iawn ar gyfer hysbysebu bod dosbarthiadau ar gael neu i gyflawni'r gwaith pwysig o annog dysgwyr dan anfantais i gymryd rhan er mwyn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd.

## 3 Arweinyddiaeth a sicrhau ansawdd

23 Mae gan uwch arweinwyr ymrwymiad cadarn iawn i barhau i ddarparu neu helpu dysgu oedolion yn y gymuned i ateb amrywiaeth eang o anghenion dysgu a lles. Mae llawer o uwch arweinwyr wedi adolygu'r ddarpariaeth yn sgil gostyngiad mewn arian cyhoeddus ac maent wedi darganfod ffyrdd arloesol o gadw'r ddarpariaeth, er ar lefel is, er enghraifft trwy gefnogi sefydliadau eraill a ariennir i gyflwyno cyrsiau mewn lleoliadau 'un stop' fel llyfrgelloedd.

24 Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn ymwybodol iawn o'r angen i gynnal darpariaeth o ansawdd uchel. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent wedi parhau i ddefnyddio mecanweithiau sicrhau ansawdd presennol fel arsylwadau ystafelloedd dosbarth o fewn ac ar draws y ddarpariaeth, teithiau dysgu, a thrafodaethau â dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr, yn ogystal â dosbarthu eu harolygon eu hunain i ddysgwyr. Maent wedi rhoi ystyriaeth dda i'r adborth i ddarparu datblygiad proffesiynol i'w staff. Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio canlyniadau sicrhau ansawdd yn dda i'w helpu i werthuso'r ddarpariaeth fel eu bod yn deall eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu, yn ogystal â gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am ddarpariaeth yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau i gyllid yn ystod y flwyddyn.

25 Mae adroddiadau monitro partneriaethau yn dangos bod addysgu yn dda yn gyffredinol ar draws y sector a bod y bartneriaeth o hyd yn gallu darparu datblygiad proffesiynol defnyddiol i'w thiwtoriaid. Mae ychydig bartneriaethau wedi darparu datblygiad proffesiynol ar y cyd i dorri i lawr ar gostau a defnyddio arbenigedd yn fwy effeithiol.

26 Mae toriadau ariannol ehangach yn golygu bod llawer o uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol naill ai wedi symud i swyddi newydd neu wedi gadael y gwasanaeth. Mae'r gostyngiad hwn mewn arbenigedd yn rhoi her sylweddol i arweinwyr strategol wrth sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn gyffredinol ac ansawdd addysgu yn benodol, gan fod llai o arweinwyr gweithredol i gyflawni'r gwaith.

27 Dywed bron pob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned eu bod wedi gorfod gostwng nifer y tiwtoriaid yn ystod 2015-2016, naill ai trwy beidio ag adnewyddu contractau neu drwy ddiswyddo. Gan amlaf, canlyniad hyn yw colli arbenigedd yn y sector, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd digidol ac ieithoedd tramor modern, wrth i diwtoriaid mwy profiadol adael. Nid oes cyfle, neu fawr ddim cyfle, i gyflogi tiwtoriaid newydd â'r medrau angenrheidiol i fodloni anghenion newidiol dysgwyr a chyflogwyr, ac i gynnal dilyniant mewn dysgu.

28 Mae'r gostyngiad yn nifer yr arweinwyr canol yn ei gwneud hi'n fwy anodd cynnal lefelau uchel o sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn rhoi gwerth uchel ar gynnal addysgu a dysgu o ansawdd da i'w dysgwyr. Maent wedi addasu gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac wedi darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i diwtoriaid gan ddefnyddio pa adnoddau bynnag sydd ar gael.

## 4 Casgliadau

29 Ar y cyfan, mae nifer o heriau sylweddol yn effeithio ar ddyfodol dysgu oedolion yn y gymuned.

30 Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn ehangach na darparu cyrsiau medrau sylfaenol, ond un o gryfderau dysgu oedolion yn y gymuned oedd ei lwyddiant yn cefnogi oedolion sydd wedi colli allan ar addysg sylfaenol. Er bod rhaglenni eraill gan y llywodraeth i fynd i'r afael â chyflogadwyedd, nid oes strategaeth gyffredinol ar gyfer rôl dysgu oedolion yn y gymuned o ran gwella medrau cyflogadwyedd oedolion â medrau sylfaenol gwael.

31 Mae ariannu dysgu oedolion yn y gymuned yn flynyddol, yn hytrach nag ar sail tymor hwy (er enghraifft, bob tair blynedd), yn ei gwneud hi'n anodd i arweinwyr partneriaeth gynllunio strategaeth gydlynol a chynaliadwy ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion, yn enwedig gan nad yw'r sector yn orfodol ac mae'n agored i ostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus.

32 Yn ddiweddar, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi dechrau gweithio gyda grwpiau fel Cymunedau yn Gyntaf i ddarparu cyrsiau pwrpasol i fodloni anghenion cymunedau lleol. Mae'r ansicrwydd o ran y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yn gostwng gallu partneriaethau i ddarparu addysg sy'n mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.

33 Mae partneriaethau yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddigon o diwtoriaid cymwys, hyfforddedig, i gyflwyno cyrsiau Sgiliau Hanfodol a llythrennedd digidol. Mae nifer y staff yn dirywio, er bod lefel yr angen yn cynyddu.

34 Mae gallu'r sector dysgu oedolion yn y gymuned i ddarparu digon o ddosbarthiadau SSIE sy'n cynnig cyfleoedd dilyniant da i ddysgwyr i addysg bellach neu waith yn gyfyngedig. Mae'r dosbarthiadau hyn yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â radicaleiddio ac eithafiaeth trwy gyflwyno dysgwyr i ddiwylliant Cymru.

35 Mae llawer o'r gwaith partneriaeth â dysgwyr anodd eu cyrraedd a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymwneud i ddechrau â meithrin hyder dysgwyr o'r fath. Fel arfer, mae hyn yn golygu cynnig cyrsiau yn ardal y dysgwr, lle y mae'n teimlo'n ddiogel. Mae toriadau i lefelau staffio yn golygu bod arbenigedd yn y meysydd arbenigol hyn yn cael ei golli ac mae gostyngiad yn y cyfleoedd datblygu proffesiynol i'r tiwtoriaid hynny sy'n weddill hefyd.

36 Mae darparu cyrsiau 'hamdden' sy'n cyfrannu at les dysgwyr ac sy'n cefnogi cam cyntaf yn ôl i addysg i'r rhai sy'n llai cefnog, yn her sylweddol i bartneriaethau. Mae llawer o arweinwyr partneriaeth yn ymroddedig ac yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o ddarparu dosbarthiadau sy'n cynnwys pobl ym mhob cam o'u bywyd mewn dysgu ac mewn byw'n iach, ond mae'n annodd cynnal y dosbarthiadau hyn yn y tymor hwy.

37 Er bod Llywodraeth Cymru yn annog darparwyr i gynnig darpariaeth Gymraeg, ychydig iawn o gyfleoedd sydd i barhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned, yn enwedig mewn partneriaethau lle'r Saesneg yw prif iaith y gymuned. Lle nad oes darpariaeth o'r fath ar gael, dim ond cyd-destunau

cyfyngedig sydd i ddysgwyr ymarfer a datblygu rhuglder yn y Gymraeg mewn cyd-destun lle cânt eu cefnogi.

38 Ar hyn o bryd, nid yw darparwyr a sefydliadau addysg uwch, fel U3A (Prifysgol y Drydedd Oes) a chyrsiau addysg uwch ar-lein, wedi'u cynnwys mewn unrhyw batrwm o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae hyn yn hepgoriad pwysig, gan fod y sefydliadau hyn yn dod â llwybrau dilyniant ac arbedion maint posibl i gyrsiau a chymwysterau mwy arbenigol.

## Atodiad: Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Nid oes rhestr swyddogol o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned na dadnasoddiad o gyfanswm nifer dysgwyr pob partneriaeth. Fodd bynnag, mae'r rhestr ganlynol yn dangos y 15 bartneriaeth bresennol a'u hardaloedd daearyddol:

- Gwynedd a Môn (Gwynedd ac Ynys Môn)
- Cyswllt Dysgu (Sir Ddinbych a Chonwy)
- Sir y Fflint
- Wrecsam
- Powys
- Pum sir Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen)
- Caerdydd a'r Fro (Caerdydd a Bro Morgannwg)
- Rhondda Cynon Taf
- Castell-nedd Port Talbot
- Merthyr
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Abertawe
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro

Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA), Cymru a Choleg Cymunedol Cymru YMCA, yn gweithio gyda'r partneriaethau ledled Cymru.

Ni chesglir data ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer darpariaeth gyfan y bartneriaeth. Cesglir data yng nghronfa ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru, wedi'i grwpio yn ôl y math o ddarpariaeth. Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o ddarpariaeth. Mae rhai darparwyr unigol yn ymddangos mewn mwy nag un math o ddarpariaeth.

| | |
|---|---|
| 1 | Wedi'i gyflwyno'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol |
| 2 | Wedi'i gyflwyno gan awdurdodau lleol trwy drefniant masnachfraint gyda sefydliad addysg bellach |
| 3 | Dysgu oedolion arall yn y gymuned a gyflwynir gan sefydliadau addysg bellach |

**Nifer y dysgwyr mewn dysgu cymunedol gan awdurdodau lleol yn ôl grŵp oedran, 2012-2013 i 2014-2015**

**Sylwer:** Mae hyn yn cynnwys dysgwyr mewn dysgu cymunedol wedi'i gyflwyno gan awdurdodau lleol, naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd â sefydliadau addysg bellach. Mae data yn eithrio dysgu cymunedol a ddarperir yn uniongyrchol.

| Oedran | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|
| O dan 16 | 95 | 65 | 60 |
| 16 | 325 | 320 | 215 |
| 17 | 275 | 270 | 170 |
| 18 | 285 | 305 | 265 |
| 19 | 340 | 310 | 265 |
| 20-24 | 2,150 | 2,055 | 1,735 |
| 25-39 | 7,690 | 7,190 | 5,915 |
| 40-49 | 5,320 | 4,710 | 3,470 |
| 50-59 | 5,015 | 4,565 | 3,075 |
| 60-64 | 3,275 | 2,555 | 1,275 |
| 65 ac yn hŷn | 6,580 | 5,620 | 2,895 |
| Heb ddatgan | 120 | 95 | 35 |
| **Pob dysgwr** | **31,475** | **28,050** | **19,375** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016b)

## Cyfeiriadau

Donaldson, G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/110721-welsh-financial-education-unit-cy.pdf [Cyrchwyd 24 Hydref 2016]

Prydain (2000) *Learning and Skills Act 2000*. Pennod 21. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/pdfs/ukpga_20000021_en.pdf [Cyrchwyd 24 Hydref 2016]

Llywodraeth Cymru (2013) *Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013 – 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dhss/publications/130521olderpeoplestrategycy.pdf [Cyrchwyd 24 Hydref 2016]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/161020-acl-review-cy.pdf

Llywodraeth Cymru (2016b) *Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru*. Heb ei gyhoeddi